maethu cymru | foster wales

# adroddiad blynyddol
2022/23



# cydweithio i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol



# cynnwys


**Cyflwyniad** .......... 4

**Dilyniant yn 2022-23** .......... 4

**Gwybodaeth am Berfformiad** .......... 11

**Themâu Allweddol** .......... 12

**1. Defnyddio Lleoliadau** .......... 14

Defnyddio Lleoliadau Statig .......... 14

Plant Ymhob Lleoliad .......... 15

Defnydd o Leoliadau Newydd .......... 16

Proffl Oedran Plant .......... 8

Argaeledd Lleoliadau Maethu Awdurdodau Lleol .......... 19

Diweddu Heb ei Gynllunio – Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Gofal Maeth .......... 21

**2. Recriwtio a Chadw Prif Ffrwd** .......... 22

Recriwtio .......... 22

Cadw .......... 24

**3. Unigolion Cysylltiedig – Recriwtio a Chadw** .......... 26

**4. Costau Cysylltiedig** .......... 30

# cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchiad o flwyddyn lawn gyntaf Maethu Cymru. Mae'n tynnu ar wybodaeth am berfformiad gan bob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol (ALl) ar gyfer 2022/2023, ac yn cynnwys cymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae hefyd yn rhoi'r diweddaraf am flaenoriaethau cynllun gwaith Maethu Cymru ar gyfer y flwyddyn.

## Rhaglen Waith Maethu Cymru 2022-23

Mae'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys y blaenoriaethau wrth weithredu Maethu Cymru a'r camau a gymerwyd i fodloni'r blaenoriaethau hynny, gan gynnwys y canlynol:

### Marchnata a Recriwtio Gofalwyr Maeth

Roedd y nodau trosfwaol yn cynnwys mwy o opsiynau ar gyfer lleoliadau lleol i blant a phobl ifanc, er mwyn hwyluso paru effeithiol, dewis o leoliad, sefydlogrwydd gwell mewn lleoliadau a chanlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Roedd ein gwaith yn cynnwys datblygu strategaeth farchnata gynhwysfawr a'i chyflawni, gan sefydlu brand Maethu Cymru ymhellach a gweithredu arfer gorau wrth recriwtio.

### Cadw Gofalwyr Maeth

Dyhead Maethu Cymru yw gwella cyfraddau boddhad ymhlith gofalwyr maeth, gan adlewyrchu maethu ar gyfer yr Awdurdod Lleol fel y dewis cyntaf a'r dewis gorau i holl aelodau'r aelwyd faethu, a hynny o ran cymorth, datblygiad a gwobrwyo. Ein bwriad yw creu gweithlu cydnerth a sefydlog o ofalwyr maeth, gyda chefnogaeth gweithlu cydnerth a sefydlog o ymarferwyr. Mae ein gwaith yn cynnwys datblygu'r ymrwymiad cenedlaethol ymhellach (i gefnogi gofalwyr maeth) a sefydlu'r fframwaith dysgu a datblygu ymhellach.

### Rheoli perfformiad

Ein nod yw sicrhau bod data'n cael eu monitro a'u dadansoddi'n effeithiol er mwyn sicrhau deilliannau gwell. Rydym yn defnyddio data i sicrhau bod gwasanaethau yn gallu ymateb i alwadau, i adnabod gwelliannau i ansawdd a rhoi sylw iddynt, i ymdrechu i gyflawni deilliannau rhagorol i blant a theuluoedd ac i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy. Mae ein gwaith yn cynnwys datblygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ymhellach er mwyn cael data mwy perthnasol yn rheolaidd a lleihau'r ddibyniaeth ar gasglu data'n flynyddol, a sicrhau ar yr un pryd fod cydberthynas rhwng cynlluniau gwaith rhanbarthol a chanfyddiadau wrth gasglu data.

### Llywodraethu

Y nod oedd sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer Maethu Cymru, eu datblygu a'u cynnal, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglen waith yn llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno cyfarfodydd llywodraethu a chynnwys uwch-staff, sicrhau bod dulliau effeithiol yn eu lle ar gyfer lledaenu gwybodaeth ac ymgynghori ar draws pob ALl, cefnogi pob ALl i fanteisio ar gyfleoedd ac i uchafu cydweithio, a'u galluogi i wneud hynny, a chefnogi Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol a Swyddogion Marchnata Rhanbarthol ymhellach ymhob rhanbarth.

Trwy'r cydymdrech i ddarparu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn, ac adrodd amdani, mae Maethu Cymru yn meithrin dealltwriaeth well o wasanaethau maethu ledled Cymru, a hefyd yn adnabod tueddiadau a themâu ar draws gwasanaethau maethu pob awdurdod lleol.

Mae bron i bob ALl wedi gallu cwblhau'r templed DPA newydd, wrth i welliannau i sicrhau cywirdeb a sicrhau ansawdd barhau i gael eu sefydlu ar lefel leol. Daw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn o'r data misol a blynyddol, er y bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dod yn bennaf o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan sicrhau bod modd adrodd yn gyflymach. Mae Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol wedi gwneud tipyn o waith sicrhau ansawdd ar gyfer y data hyn, fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhywfaint o wallau. Mae'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol hefyd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth ranbarthol a bydd yr adroddiadau hyn yn hanfodol wrth ddatblygu rhaglenni gwaith rhanbarthol, a'u cyflawni, yn barhaus.

Diolchwn i'r holl awdurdodau lleol a'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol am eu hymrwymiad i sicrhau bod yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl. Wrth symud ymlaen, rydym yn hyderus y bydd cywirdeb y wybodaeth yn yr adroddiadau yn gwella wrth i amlder yr adroddiadau wella.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Maethu Cymru wedi ei sefydlu ac mae ganddo'r rolau allweddol canlynol wrth gyflawni'r rhaglen waith.

### Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru

Mae'r rôl yn goruchwylio datblygiad strategol Maethu Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac mae'n darparu dolen strategol at ADSS Cymru, Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a Llywodraeth Cymru i yrru gwelliant, cysondeb a chydlyniad y ddwy raglen. Mae'r rôl yn cael ei gwireddu gyda chefnogaeth yr ALl sy'n ei lletya, sef Cyngor Caerdydd.

### Pennaeth Maethu Cymru

Mae Pennaeth Maethu Cymru wedi bod yn ei swydd er mis Mawrth 2022. Yn ogystal ag arwain y rhaglen waith, rheoli'r matrics ar gyfer y Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol a chydlynu'r blaenoriaethau cenedlaethol, mae wedi bod yn canolbwyntio ar gydweithio â phob ALl a chynrychioli Maethu Cymru mewn cyfleoedd yn y cyfryngau cenedlaethol, ar y teledu a'r radio.

### Tîm Canolog

Mae hyn yn cynnwys capasiti allweddol ar gyfer darparu cymorth busnes a rennir gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Swyddog Cymorth Busnes arbennig Maethu Cymru.

### Penaethiaid Gwasanaethau Plant Arweiniol

Mae grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Arweiniol yn darparu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Maethu Cymru, gan gynnwys cyfrannu at Gyfarfodydd misol y grŵp, cydlynu goruchwyliaeth strategol y rhaglen o fewn y chwe rhanbarth a throsglwyddo gwybodaeth i'r penaethiaid gwasanaeth eraill yn eu rhanbarthau a rhoi adborth ganddynt.

### Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol

Mae'r chwe Rheolwr Datblygu Rhanbarthol yn cydlynu'r rhaglen ranbarthol ar gyfer eu rhanbarthau perthnasol, gan oruchwylio a hwyluso cyfarfodydd gweithredol a strategol rhanbarthol, gyrru datblygiadau newydd yn eu blaenau trwy ddull cyd-gynhyrchu gyda gwasanaethau maethu, a hwyluso'r data misol a blynyddol a sicrhau eu hansawdd.

### Rheolwr Marchnata Cenedlaethol

Mae'r rôl yn cydlynu strategaeth farchnata Maethu Cymru, yn ei harwain ac yn ei goruchwylio. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio ein sefydliadau partner i gydlynu'r gweithgarwch Cysylltiadau Cyhoeddus a marchnata (Cowshed Communications), darparu'r wefan (Illustrate Digital) ac Optimeiddio Peiriannau Chwilio/Talu am Glicio (Liberty) Mae'r Rheolwr Marchnata Cenedlaethol yn cydlynu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Swyddogion Marchnata Rhanbarthol ac yn goruchwylio cyfleoedd marchnata cenedlaethol a rhanbarthol.

### Swyddogion Marchnata Rhanbarthol

Mae'r chwe Swyddog Marchnata Rhanbarthol yn cydlynu cyfleoedd i farchnata ymhob un o'r awdurdodau lleol yn eu rhanbarth, ac mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau cyfathrebu maethu a chorfforaethol, asesu effaith marchnata a chefnogi gwefannau Awdurdodau Lleol.



# dilyniant yn 2022-2023

## Marchnata a Recriwtio

Gyrrodd y Rheolwr Marchnata Cenedlaethol a'r Swyddogion Marchnata Rhanbarthol ffrwd waith marchnata Rhaglen Waith Maethu Cymru yn ei blaen yn ystod 2022-23, gyda mewnbwn Cowshed Communications, a gomisiynwyd i ddarparu arbenigedd ar farchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus a chefnogaeth gyda hyn.

- Cynhaliwyd Pythefnos Gofal Maeth rhwng 9 a 22 Mai 2022, gydag ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol Maethu Cymru. Datblygwyd asedau i gefnogi awdurdodau lleol, gan gynnwys datganiadau i'r wasg cenedlaethol a lleol. Datblygwyd tri fideo astudiaeth achos newydd a chawsant eu cyhoeddi i'r wasg ac ar gyfryngau cymdeithasol, gyda straeon gan ofalwyr maeth a Voices From Care Cymru (VFCC). Wrth ddadansoddi'r gweithgarwch dangoswyd cynnydd llwyddiannus mewn traffig i'r wefan, cyfryngau cymdeithasol ac ymholiadau.
- Cwblhawyd ymgyrch a gynlluniwyd yn benodol i ddenu gofalwyr maeth posibl o asiantaethau eraill ym mis Awst. Roedd yna lefelau da o ymgysylltiad a rhyngweithiad gyda'r hyn a bostiwyd, gydag un postiad yn cyrraedd dros 25,000 o bobl.
- Lansiwyd ymgyrch genedlaethol Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches ym mis Medi 2022. Crëwyd dau fideo astudiaeth achos yn ogystal â datganiad i'r wasg cenedlaethol a chynnwys wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, a rannwyd gan bob awdurdod lleol.
- Datblygwyd postiadau ar themâu cyllid ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â blog, a chawsant eu lansio ym mis Tachwedd, gan gysylltu yn ôl at flog a oedd yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin am gymorth ariannol, cyflogaeth, treth ar hyn y mae lwfansau'n talu amdano. Crëwyd y rhain i roi sylw i'r lleihad mewn ymholiadau yn ystod mis Awst a mis Medi yn sgil yr argyfwng costau byw.
- Cafwyd sylw cadarnhaol i faethu ar gefn hysbyseb Nadolig John Lewis ar y teledu, a rhannodd Maethu Cymru'r hysbyseb ar draws yr holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu genedlaethol ar y teledu o 1-31 Ionawr ac roedd yn cynnwys 74 slot hysbysebu yn ystod rhaglenni poblogaidd ac ar draws gwasanaethau dal-i-fyny.
- Cynhyrchwyd fideos panel gyda gofalwyr maeth sydd eisoes yn maethu gyda Maethu Cymru. Datblygwyd hyn i mewn i gyfres o flogiau â chwe phennod a chawsant eu postio ar draws tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Roedd y fideos yn sgwrs onest ac agored rhwng gofalwyr maeth, gyda'r newyddiadurwraig brofiadol a'r cyflwynydd Mai Davies yn cynnal y sgyrsiau.
- Datblygwyd templed Post Uniongyrchol y gallai ALlau ei ddefnyddio i'w rhoi mewn llythyron adnewyddu'r dreth gyngor ac mewn ymgyrchoedd uniongyrchol trwy'r post. Cerdyn post oedd hwn ag arno stori rhywun a oedd wedi gadael gofal, ac roedd yna god QR er mwyn mynd yn uniongyrchol i'r stori ar wefan Maethu Cymru. Rhoddwyd y dyluniad i bob ALl a chafodd ei ddosbarthu i drigolion ar draws Cymru yn ystod mis Mawrth 2023.



Aeth Maethu Cymru i sawl digwyddiad mawr ledled Cymru yn ystod 2022-23. Roedd hyn yn cynnwys:

- noddi tystysgrifau Eisteddfod Yr Urdd yn y digwyddiad yn Sir Ddinbych ym mis Mai,
- sioe awyr De Cymru yn Abertawe ym mis Mehefin,
- presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Pride Cymru yng Nghaerdydd a
- Sioe Frenhinol Cymru yn ystod mis Awst.

Cefnogwyd y gweithgarwch marchnata cenedlaethol hefyd trwy hysbysebu Talu am Glicio ar Google i sicrhau bod Maethu Cymru yn cynnal ei statws uchel trwy'r peiriannau chwilio.

Datblygwyd cysylltiadau gyda chyfryngu cenedlaethol, a nawr maent yn dod at Maethu Cymru ar gyfer amrywiaeth o gyfweliadau gyda'r cyfryngau a chyfleoedd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sesiwn ffonio-i-mewn gyda BBC Radio Wales – 12/05/22
- awr cyngor BBC Radio Wales – 13/11/22
- darn ar gyfer newyddion ITV am Blant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches – 17/11/22
- amser gyrru BBC Radio Wales am Hysbyseb John Lewis – 10/11/22
- erthygl yn y newyddion am Blant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches ar gyfer gwefan y BBC ac eitem ar y teledu ar Newyddion y BBC am 6.30pm – 19/12/22
- Awr Cyngor BBC Radio Wales am Faethu a Mabwysiadu ymhlith Pobl LHDTC – 08/03/22
- Darn newyddion cenedlaethol ar gyfer Metro am ffoaduriaid ifainc – 14/03/23

Cafwyd dadansoddiad manwl o ddefnyddwyr gwefannau Maethu Cymru gan ddefnyddio offeryn dadansoddi, a arweiniodd at rywfaint o waith adnewyddu ar gyfer pob un. Aethpwyd ati i wella rhannau newydd o'r wefan hefyd yn ystod y flwyddyn; roedd hyn yn cynnwys adrannau ychwanegol am lety â chymorth a Phlant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches i gyd-fynd â'r ymgyrch ynghylch Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches ac ailddatblygu'r tudalennau "eisoes yn maethu" i sicrhau bod cynigion yr Awdurdodau Lleol yn cael eu cynrychioli a'u bod yn ddeniadol i ofalwyr gydag asiantaethau eraill sydd efallai eisiau symud at Maethu Cymru.

Mae'r gwefannau wedi eu cysylltu at Google Analytics ac mae hyn yn golygu bod modd cymharu perfformiad; defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddatblygu cynnwys blog ar y gwefannau cenedlaethol a lleol am ddewis o destunau, gan gynnwys cymorth ariannol. Mae hyn oll yn gymorth gyda'n strategaeth optimeiddio peiriannau chwilio ac yn gymorth i ni ymddangos yn uwch ar Google, heb i ni glustnodi cyllideb ychwanegol tu hwnt i'r ymgyrchoedd talu am glicio sydd ar waith yn barod.

Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn traffig i'r wefan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag gwelwyd lleihad ym mis Medi yn bennaf am i'r holl weithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol ddiweddu ar farwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines Elisabeth II. Gwelwyd cynnydd eto ym mis Hydref a pharhaodd i godi yn ystod gweddill y flwyddyn.

Roedd canlyniadau arolwg tracio brandiau YouGov yn dangos cynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth o frand o gymharu ag asiantaethau maethu annibynnol sy'n cystadlu yn ein herbyn. Gwelwyd cynnydd yn adnabyddiaeth brand Maethu Cymru o 9% (Chwefror 2022) i 17% (Ionawr 2023) ac roedd y cystadleuydd agosaf nesaf ar 9%.

### Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru

Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru yw ein gweledigaeth i bob gofalwr maeth gyda'r awdurdod lleol yng Nghymru i weld cysondeb o ran cymorth, gwobrau, cyfleoedd i ddysgu a buddion ychwanegol. Cafodd ei lansio'n wreiddiol ym mis Gorffennaf 2021 ac mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio tuag at ei weithredu ledled Cymru. Mae'r Ymrwymiad Cenedlaethol yn cynnwys y canlynol, ynghyd â llawer mwy:

- Arwyddion o werthfawrogiad a chydnabyddiaeth
- Grwpiau cymorth a chyfleoedd i ymgynghori a chyfathrebu
- Ffioedd a Lwfansau
- Cardiau a chynlluniau gostyngiad
- Siarter gofalwyr maeth
- Mentora a chymorth cyfoedion
- Dysgu a datblygu

Datblygwyd elfennau newydd yn ystod 2022-23 ac fe'u hychwanegwyd, ochr yn ochr â mwy o gysondeb i Maethu Cymru o ran safonau lleiaf a gweithredu'r elfennau amrywiol. Mae'r tablau isod yn dangos y cynnydd ers ei lansio.

## Ebrill 2022

Wedi'i gwblhau | Ar waith

| Rhanbarth | ALl | Siarter YRhM | Grŵp Cymorth | Fframwaith Dysgu a Datblygu | Cefnogaeth OOH | Cymwysterau GC | Digwyddiadau Ymgynghori | Digwyddiadau Cymdeithasol | Mentora a Chymorth Cyfoedion | Cylchlythyr | Arwyddion o Werthfawrogiad | Tystysgrif Gwasanaeth Hir | Cyflogwr sy'n Deall Maethu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwent** | CBSBG | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CBSC | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CSF | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CSC | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CBST | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| **C a Fro** | CAER | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | BM | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| **CTM** | MER | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | RhCT | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CBSPaO | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | | |
| **CaG** | CAERF | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | POWYS | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CER | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | PEN | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | Wedi'i gwblhau |
| **GM** | ABER | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | Wedi'i gwblhau |
| | CNPT | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| **GC** | GWYN | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | YM | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | CONWY | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | DIN | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | FFLINT | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |
| | WRECS | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | |

## Mawrth 2023

| Rhanbarth | ALl | Cylchlythyr | Arwyddion o Werthfawrogiad | Aelodaeth YRhM | Digwyddiadau Cymdeithasol | Grwpiau Cymorth | Cynllun Gostyngiad | Cymwysterau GC | Fframwaith D a D | Digwyddiadau Ymgynghori | Mentora a Cyfoedion | Tystysgrifau Gwasanaeth Hir | Cefnogaeth OOH | Cynllun argymell ffrind | Cyflogwr sy'n Deall Maethu | Siarter MC | Proffiliau Gofalwyr Maeth | Taliadau (ffoedd a lwfansau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwent** | CBSBG | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Ar waith | |
| | CBSC | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Ar waith | |
| | CSF | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Ar waith | |
| | CSC | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | CBST | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | |
| **C a Fro** | CAER | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | BM | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | |
| **CTM** | MER | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | |
| | RhCT | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | |
| | CBSPaO | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | |
| **CaG** | CAERF | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | |
| | POWYS | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | |
| | CER | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Wedi'i gwblhau | |
| | PEN | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | |
| **GM** | ABER | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | |
| | CNPT | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Ar waith | |
| **GC** | GWYN | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | YM | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | CONWY | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | DIN | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | FFLINT | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| | WRECS | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar waith | |
| **Dyddiad cwblhau** | | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | | | Ebr 23 | | Medi 23 | Medi 23 | Gorf 23 | Rhag 23 | Ebr 24 |

## Ymgysylltiad a Chydweithio

### Elfen allweddol o Raglen Waith Maethu Cymru yw ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig gofalwyr maeth a thimau maethu.

Mae Maethu Cymru wedi parhau i weithio i sefydlu brand Maethu Cymru ar draws gwasanaethau, gyda thimau'n adrodd eu bod yn elwa ar fod yn rhan o gydweithfa genedlaethol ac yn gweld eu hunain yn glir fel Maethu Cymru. Yn ogystal, mae cydweithio rheolaidd gyda gwasanaethau maethu wedi datblygu, gan gynnwys cyfarfod misol gyda rheolwyr tîm a chyfarfod chwarterol arweinwyr dysgu a datblygu.



Ffocws y digwyddiad oedd 'clywed llais' gofalwyr maeth ar draws Maethu Cymru ac roedd yn cynnwys sesiynau am ddysgu a datblygu, yr ymrwymiad cenedlaethol, marchnata a recriwtio a sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyffredinol. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da ac arweiniodd at ddatblygu cynllun gweithredu, gan sicrhau bod barn gofalwyr maeth yn bwydo i mewn i raglen waith Maethu Cymru yn uniongyrchol.

Roedd y cynllun yn cynnwys sawl cam gweithredu allweddol fel:

- Adolygu gweithrediad y Fframwaith Dysgu a Datblygu
- Cynnal sesiynau rheolaidd gyda gofalwyr maeth gan ddiweddaru am gynnydd a chlywed barn
- Datblygu Arolwg blynyddol cenedlaethol Maethu Cymru
- Datblygu'r gwaith ar sicrhau cysondeb rhwng ffioedd a lwfansau ymhellach

Cynhaliwyd digwyddiad 'adborth' dilynol ar-lein ym mis Chwefror 2023 i ddiweddaru gofalwyr maeth am gynnydd yn erbyn y cynllun, a bydd y broses barhaus yn parhau yng nghynhadledd 2023.

Mae Maethu Cymru wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda Voices From Care Cymru, gan gynnwys mynd i sawl digwyddiad a'u grŵp cynghori, i hyrwyddo gwaith Maethu Cymru ac i glywed barn plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Roedd hyn yn cynnwys presenoldeb mewn dau ddigwyddiad cenedlaethol ac ymgysylltiad rheolaidd ynghylch testunau trwy grŵp cynghori VFCC.

## Llywodraethiant a Strwythur

Mae'r seilwaith cenedlaethol wedi parhau i wneud cynnydd da trwy'r Tîm Canolog gan gynnwys y Cyfarwyddwr, Pennaeth Maethu Cymru, y Rheolwr Marchnata Cenedlaethol a'r staff cymorth busnes.

Mae yna drefniadau Llywodraethu yn eu lle ar gyfer Maethu Cymru ar lefel uwch-swyddogion trwy gyfarfod Penaethiaid Arweiniol Gwasanaethau Plant ac mae Grŵp Rheoli Busnes (Grŵp Gweithredol) y Fframwaith Maethu Cenedlaethol gynt yn dal i gwrdd o bryd i'w gilydd hyd nes y bydd y Cydbwyllgor newydd wedi'i sefydlu. Cytunwyd yn derfynol ar Gytundeb y Cydbwyllgor, ac mae awdurdodau lleol wedi cytuno arno'n ffurfiol ac wedi ei lofnodi. Rhagwelir y bydd yn dechrau cwrdd yn 2023/24 wrth i gytundeb diwygiedig gyda'r awdurdod lleol sy'n lletya gael ei roi yn ei le.

Parhaodd y trefniadau gyda'r cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus / Marchnata a gomisiynwyd hyd nes ddiwedd 2022/23, a chwblhawyd y gwaith caffael ar gyfer contract newydd yn gynnar yn 2023/24. Mae'r darparwr wedi cefnogi gyda'r Ymgyrchoedd Cenedlaethol, Pythefnos Gofal Maeth a datblygiad fideos astudiaethau achos yn ogystal â sefydlu cyfleoedd yn y cyfryngau cenedlaethol a chynghori arnynt.

Enillodd Maethu Cymru wobr Rhagoriaeth mewn Maethu Genedlaethol. Cyflwynwyd y wobr yn Birmingham ym mis Tachwedd 2022. Casglodd cynrychiolwyr Maethu Cymru'r wobr a defnyddiwyd ffotograffau ar draws y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r llwyddiant. Roedd cydweithwyr o Lywodraeth Cymru yn y digwyddiad hefyd.



# gwybodaeth am berfformiad

# themâu allweddol

Isod ceir rhai o'r uchafbwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn Adroddiad ar Berfformiad Cymru Gyfan ar gyfer 2022/23.

**Sylwer:** mae'r data hwn yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i Maethu Cymru gan awdurdodau lleol. Gallai fod ychydig yn wahanol i ffynonellau data eraill oherwydd gwahaniaethau mewn diffniadau a gwahaniaethau yn y cohortau o blant a oedd yn cael eu cyfrif.

## Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru

- Yn **7,181**, gwelwyd lefel Plant sy'n Derbyn Gofal yn ei chyfanrwydd yn cynyddu 1.7% (n121) erbyn 31.03.23.
- Gofal Maeth yw'r math mwyaf cyffredin o leoliad i blant sy'n derbyn gofal o hyd, gyda 69.3% o blant yn cael eu lleoli, sydd ychydig bach yn is na'r ddwy flynedd ddiwethaf.
- Ar 9.4% mae cyfran y plant sy'n cael eu lleoli mewn gofal preswyl yn dangos y twf mwyaf sylweddol dros yr un cyfnod.
- Roedd hanner yr holl leoliadau newydd a wnaed (50.2%), ar gyfer plant 11 oed neu'n hŷn, gan barhau gyda thuedd o gynnydd. O fewn y cynnydd hwn roedd cynnydd o 10.9% ymhlith plant yr oed hwn a oedd yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth masnachol a chynnydd o 21.3% mewn lleoliadau gofal preswyl.

## Plant mewn gofal maeth yng Nghymru

- Gofal maeth yw'r math mwyaf cyffredin o leoliad o hyd i blant sy'n derbyn gofal ac mae 69.3% o blant yn cael eu lleoli.
- Roedd y plant a leolwyd mewn lleoliadau unigolion cysylltiedig wedi parhau i dyfu i 23.3% (n1,673).
- Roedd yna leihad bychan a oedd yn cyfateb, i 28% (n2,021) ymhlith plant yng ngofal maeth prif ffrwd yr ALl.
- Gwelwyd cynnydd bychan ymhlith y plant a leolwyd gydag asiantaethau maethu'r 3ydd sector, i 2.1% (n152) a lleihad bychan ymhlith y rheiny gydag asiantaethau maethu masnachol i 15.8% (n1,134).
- Gwelwyd cynnydd yn y lleoliadau newydd a wnaed ymhob lleoliad heblaw am leoliadau unigolion cysylltiedig; gwnaethpwyd mwy o leoliadau maethu'r ALl yn fewnol.
- Gwelwyd cynnydd pellach yn nifer y plant y daeth eu lleoliad i ben mewn ffordd heb ei gynllunio i 16.4% (n471) ar draws yr holl fathau o leoliadau maethu. Mae hyn wedi cynyddu bob blwyddyn ers 20/21.

## Ardal y lleoliad

- Lleolwyd 65% o'r plant yn eu hardal awdurdod lleol eu hunain, er, mae'r lefel hon wedi disgyn 1% dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Newidiodd cyfran y plant a leolwyd yng Nghymru, ond y tu allan i'w hardal awdurdod lleol, ychydig bach, i 27.5%.
- Cynyddodd cyfran y plant a leolwyd y tu allan i Gymru i 7.5% (n543) er bod y nifer yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- O'r lleoliadau gofal maeth newydd a wnaed, roedd **84%** a wnaed o fewn darpariaeth yr awdurdod lleol yn ardal awdurdod lleol y plentyn ei hun, o gymharu â **24%** o leoliadau newydd a wnaed gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol masnachol.

## Recriwtio a chadw prif ffrwd

- Gwelwyd lleihad pellach yn y nifer o ofalwyr maeth a wnaeth ymholiadau ac a gymeradwywyd. Fodd bynnag, gwelwyd lleihad sylweddol yn y gyfradd yr oedd ymholiadau wedi disgyn, o gymharu â'r 5 mlynedd ddiwethaf.
- Mae cyfradd lleihad ymweliadau cychwynnol hefyd wedi gostwng eleni o gymharu â'r 5 mlynedd ddiwethaf.
- Roedd dros hanner y cymeradwyaethau ar gyfer gofalwyr maeth o fewn yr amserlen o 6 mis a argymhellir.
- Gwelwyd gwelliant yng nghyfraddau cadw gofalwyr maeth yn 2022/23, gyda rhai agweddau yn dychwelyd at y lefelau cyn y pandemig e.e. roedd nifer y gofalwyr maeth a adawodd y gwasanaeth ar ei hisaf ers 3 blynedd a chollwyd 30% (n91) yn llai o leoliadau o gymharu â'r llynedd.
- Ddiwedd 2023 adroddwyd bod colled net o 69 o aelwydydd a cholled net o 89 o leoliadau, fodd bynnag yn sgil newidiadau i statws cymeradwyaeth gwelwyd cynnydd yn niferoedd lleoliadau ar y cyfan.



## Y rhaniad yn y ddarpariaeth faethu brif ffrwd

- Mae **61.2%** o blant mewn lleoliadau maethu prif ffrwd wedi eu lleoli o fewn adnoddau'r Awdurdod Lleol, ac mae hyn yr un peth â'r ffigurau ym mis Mawrth 2022.
- Mae **4.6%** o blant wedi eu lleoli mewn darpariaeth Annibynnol yn y 3ydd sector, ac mae hyn yn gynnydd bach o gymharu â 21/22.
- Mae **34.2%** o blant wedi eu lleoli mewn darpariaeth fasnachol Annibynnol, ac mae hyn yn dangos cynnydd bychan, o 34% yn 21/22.

## Darpariaeth faethu unigolyn cysylltiedig

- Mae'r galw am asesiadau unigolion cysylltiedig yn dal i fod yn uchel (cynhaliwyd 856 o asesiadau hyfywedd); Staff y gwasanaeth maethu oedd wedi cynnal 66% o'r rhain.
- Dyrannwyd mwy na thair gwaith yr asesiadau unigolion cysylltiedig o gymharu ag asesiadau prif ffrwd h.y. 651 o gymharu â 206. Mae hyn yn cynnal patrwm a welwyd ers sawl blwyddyn.
- Roedd 308 o unigolion cysylltiedig newydd wedi cael eu cymeradwyo, sef cynnydd o 7.6% (n22).
- Roedd 1,673 o blant yn byw gyda Gofalwyr Maeth a oedd yn Unigolion Cysylltiedig ddiwedd 22/23, sef cynnydd o 4% (n66).

## Argaeledd Lleoliadau

- Gwelwyd cynnydd o 3% yng nghyfanswm y lleoliadau maeth prif ffrwd gyda'r Awdurdod Lleol a gymeradwywyd, i **2,408**
  - Roedd **79.7%** (n1,918) o leoliadau wedi eu cymryd, a bron y cyfan ohonynt gan blant o'r ALl cartref.
  - Ar **8.6%** (n214) roedd mwy o leoliadau gwag ar gael i'w defnyddio o gymharu â'r llynedd. O'r rhain roedd 6 yn lleoliadau Rhiant a Phlentyn gwag.

## Costau

- Gofal maeth Awdurdod Lleol yw'r lleoliad maethu mwyaf cost-effeithiol yn y sector yng Nghymru o hyd, a hynny ar gyfer lleoliadau prif ffrwd a lleoliadau rhiant a phlentyn.

# defnyddio lleoliadau

1

## Defnyddio Lleoliadau Statig

Mae defnyddio lleoliadau statig yn adlewyrchu'r lleoliadau a ddarperir ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal fel yr oedd ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol ar gyfer pob cyfnod.

### Negeseuon Allweddol:


Ar **7181**, roedd lefel gyffredinol y Plant sy'n Derbyn Gofal ymhob lleoliad wedi cynyddu 1.7% (n121) ar 31.03.23.
Mae'r ffgurau cyfan yn dangos y newidiadau allweddol canlynol:

- Gofal maeth yw'r math mwyaf cyffredin o leoliad i blant sy'n derbyn gofal, gyda 69.3% o'r plant yn cael eu lleoli, sydd ychydig bach yn is na'r ddwy flynedd ddiwethaf.
- Ar 9.4% mae cyfran y plant sy'n cael eu lleoli mewn gofal preswyl yn dangos y twf mwyaf sylweddol dros yr un cyfnod.
- Lleolwyd y rhan fwyaf o'r plant, sef 65%, o fewn eu hardal awdurdod lleol eu hunain, er bod y lefel hon wedi disgyn 1% dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Roedd nifer y plant a leolwyd y tu allan i Gymru wedi cynyddu 7.5% a'r nifer a leolwyd yng Nghymru, ond y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, wedi newid ychydig bach a nawr ar 27.5%.
- Cyfanswm y lleoliadau a wnaed mewn trefniadau Rhiant a Phlentyn oedd **168**. Roedd **21%** o'r rhain mewn darpariaeth fasnachol, annibynnol, **51%** yn ddarpariaeth breswyl, **22%** yn eu Hawdurdod Lleol eu hunain a **4%** gyda'r 3ydd sector.

### Lleoliadau gofal maeth

- Mae nifer y plant a leolwyd mewn lleoliadau unigolion cysylltiedig wedi parhau i dyfu i 23.3% (n1,673) yn 2022/23
- Roedd yna leihad bychan a oedd yn cyfateb i 28% (n2021) ymhlith plant yng ngofal maeth prif ffrwd yr ALl
- Gwelwyd cynnydd bychan ymhlith y plant a leolwyd gydag asiantaethau maethu'r 3ydd sector, i 2.1% (n152) a lleihad bychan ymhlith y rheiny gydag asiantaethau maethu masnachol i 15.8% (n1,134).

## Plant ymhob Lleoliad




### Pob Lleoliad fel yr oedd ar 31.03.23

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Unigolyn Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfanswm PDG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Arall' | Cyfanswm PDG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 21 | 2 | 114 | 21 | 6 | 131 | 295 | 115 | 3 | 130 | 543 |
| Yng Nghymru | 293 | 10 | 228 | 33 | 102 | 660 | 1,326 | 370 | 1 | 272 | 1,969 |
| O fewn yr ALl | 1,692 | 3 | 1,041 | 236 | 44 | 343 | 3,359 | 109 | 73 | 1,128 | 4,669 |
| **Cyfanswm** | **2,006** | **15** | **1,383** | **290** | **152** | **1,134** | **4,980** | **594** | **77** | **1,530** | **7,181** |


**01** Defnyddio Lleoliadau

### Pob Lleoliad fel yr oedd ar 31.03.22

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Unigolyn Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfanswm PDG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Arall' | Cyfanswm PDG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 24 | 0 | 103 | 14 | 1 | 74 | 216 | 105 | 0 | 99 | 420 |
| Yng Nghymru | 301 | 13 | 250 | 38 | 78 | 719 | 1,399 | 292 | 1 | 268 | 1,960 |
| O fewn yr ALl | 1,697 | 1 | 992 | 210 | 47 | 380 | 3,327 | 98 | 74 | 1,181 | 4,680 |
| **Cyfanswm** | **2,022** | **14** | **1,345** | **262** | **126** | **1,173** | **4,942** | **495** | **75** | **1,548** | **7,060** |

### Pob Lleoliad fel yr oedd ar 31.03.21

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Unigolyn Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfanswm PDG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Arall' | Cyfanswm PDG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 27 | 1 | 113 | 15 | 5 | 68 | 229 | 92 | 5 | 110 | 436 |
| Yng Nghymru | 305 | 17 | 261 | 12 | 83 | 712 | 1390 | 273 | 0 | 268 | 1931 |
| O fewn yr ALl | 1782 | 7 | 1089 | 128 | 65 | 383 | 3454 | 94 | 52 | 1,259 | 4,859 |
| **Cyfanswm** | **2,114** | **25** | **1,463** | **155** | **153** | **1,163** | **5,073** | **459** | **57** | **1,637** | **7,226** |




## Canfyddiadau

Ar 31 Mawrth 2023, roedd cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn 7181, sef cynnydd o 7060 o fis Mawrth 2022, fodd bynnag mae'r ffgwr yn dal i fod yn is na'r ffgwr ar gyfer mis Mawrth 2021.

Roedd 543 o blant yn byw y tu allan i Gymru ar 31.3.23, ac mae hyn yn gynnydd o 420 o blant, neu 1.5%, o gymharu â'r llynedd. O'r plant hyn sy'n byw y tu allan i Gymru, mae **25%** gyda gofalwyr sy'n unigolion cysylltiedig, mae **22%** yn byw mewn lleoliadau preswyl, mae gan **24%** 'drefniadau eraill'[1] ac mae **25%** mewn darpariaeth faethu annibynnol (3ydd Sector a masnachol) a **4%** mewn lleoliadau maethu awdurdod lleol.

Mae canran cyfanswm y plant sy'n mynd i mewn i bob math o leoliad wedi aros yn yr unfan ers y llynedd, gyda lleihad bychan mewn lleoliadau maethu prif ffrwd a chynnydd bychan mewn lleoliadau maethu gydag unigolyn cysylltiedig. Mae'r newid ychydig yn fwy dros y cyfnod o dair blynedd. Yn yr un modd, gwelwyd cynnydd bychan mewn lleoliadau gyda darparwyr 3ydd sector a lleihad gyda darparwyr maethu masnachol. Gwelwyd cynnydd sylweddol o tua 20% yn niferoedd y plant a leolir mewn lleoliadau preswyl, gyda mwyafrif y rhain mewn lleoliadau preswyl allanol.

Mae'r defnydd o riant a phlentyn hefyd wedi cynyddu, gyda mwy o blant yn cael eu lleoli mewn darpariaeth breswyl a llai mewn lleoliadau rhiant a phlentyn awdurdod lleol.

[1] *Mae trefniadau 'Eraill' – yn cynnwys dewis eang o leoliadau fel lleoliadau 'arall'. Mae trefniadau 'eraill' yn cynnwys lleoliadau mabwysiadu, lleoliadau gyda rhieni, trefniadau byw'n annibynnol, remand gwarchodol, trefniadau tai â chymorth a lleoliadau eraill heb eu rheoleiddio / yn Gweithredu Heb Gofrestru.*

# Defnydd o Leoliadau Newydd

Mae'r data hyn yn dal y lleoliadau newydd a wnaed dros y flwyddyn ariannol, gan gynnwys y rheiny sydd wedi dod i mewn i ofal o'r newydd a newidiadau mewn lleoliadau trwy gydol y flwyddyn. Bwriad y data hyn yw meithrin dealltwriaeth well o'r lleoliadau a ddefnyddir ac adeiladu ar ddadansoddiad o anghenion recriwtio.


### Negeseuon Allweddol:


Cyfanswm nifer y lleoliadau newydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 22/23 oedd **5,040**, sef cynnydd o **375** o leoliadau, neu **8%**, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau cyffredinol yn dangos y canlynol:


- Roedd y cynnydd yn lleoliadau'r awdurdod lleol 'ei hun', lleoliadau a gomisiynwyd gan y 3ydd sector neu'r sector nid-er-elw a lleoliadau 'eraill'.
  - Roedd lleoliadau newydd mewn lleoliadau Preswyl i fyny 24.4% (n128) i 652
  - Roedd lleoliadau newydd mew unrhyw drefniant derbyn gofal arall i fyny 11% (n142) i 1,421

### Gofal maeth

- Gwelwyd cynnydd yn yr holl leoliadau ac eithrio lleoliadau maeth newydd gydag unigolion cysylltiedig, gan gynnwys y rheiny a leolwyd gyda gofalwyr maeth yr ALl, a chafwyd mwy o leoliadau mewnol.
  - Gwelwyd lleoliadau newydd gyda Gofalwyr Maeth Prif Ffrwd yr ALl Cartref i fyny 16% (n230) i 1648 a Maethu Prif Ffrwd mewn ALl Arall i fyny 4 lleoliad i 20.
  - Roedd lleoliadau newydd gyda Gofalwyr Maethu darparwyr Trydydd Sector Annibynnol i fyny 88% (n34) i 64
  - Roedd lleoliadau newydd gyda Gofalwyr Maethu darpariaeth Fasnachol Annibynnol i fyny 9.6% (n51) i 578
  - Roedd lleoliadau newydd gyda Gofalwyr Maeth sy'n Unigolyn Cysylltiedig a rheoliad 26 i lawr 6% (n52) i 815
- O ran lleoliad, roedd 84% o leoliadau newydd a wnaed o fewn darpariaeth ALl yn ALl y plentyn ei hun, o gymharu â 24% o leoliadau newydd a wnaed gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol masnachol.




### Lleoliadau Maethu Newydd ar 31.03.2023

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Unigolyn Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfan-swm PDG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Arall' | Cyfan-swm PDG | Rhiant a Phlentyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 7 | 2 | 23 | 22 | 5 | 83 | 135 | 135 | 0 | 128 | 398 | 50 |
| Yng Nghymru | 257 | 15 | 56 | 63 | 49 | 355 | 752 | 286 | 4 | 349 | 1,391 | 80 |
| O fewn yr ALl | 1,384 | 3 | 275 | 376 | 10 | 140 | 2,080 | 115 | 112 | 944 | 3,251 | 38 |
| **Cyfanswm** | **1,648** | **20** | **354** | **461** | **64** | **578** | **2,967** | **536** | **116** | **1,421** | **5,040** | **168** |

**01** Defnyddio Lleoliadau

### Lleoliadau Maethu Newydd ar 31.03.2022

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Unigolyn Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfan-swm PDG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Arall' | Cyfan-swm PDG | Rhiant a Phlentyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 13 | 0 | 35 | 18 | 0 | 44 | 110 | 86 | 0 | 106 | 302 | 34 |
| Yng Nghymru | 206 | 15 | 79 | 88 | 26 | 322 | 736 | 251 | 0 | 291 | 1,278 | 62 |
| O fewn yr ALl | 1,199 | 1 | 279 | 368 | 8 | 161 | 2,016 | 76 | 111 | 882 | 3,085 | 34 |
| **Cyfanswm** | **1,418** | **16** | **393** | **474** | **34** | **527** | **2,862** | **413** | **111** | **1,279** | **4,665** | **130** |

### Lleoliadau Maethu Newydd ar 31.03.2021

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Unigolyn Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfan-swm PDG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Arall' | Cyfan-swm PDG | Rhiant a Phlentyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 18 | - | - | 28 | - | 37 | 130 | 95 | - | 66 | 291 | 32 |
| Yng Nghymru | 184 | 7 | 67 | 30 | 27 | 343 | 658 | 227 | 1 | 97 | 983 | 79 |
| O fewn yr ALl | 1,106 | 4 | 297 | 278 | 19 | 147 | 1,851 | 92 | 81 | 880 | 2,904 | 36 |
| **Cyfanswm** | **1,308** | **11** | **411** | **336** | **46** | **527** | **2,639** | **414** | **82** | **1,043** | **4,178** | **147** |

## Canfyddiadau

Gwelwyd cynnydd mewn lleoliadau newydd a wnaed ers y llynedd, gan gynnwys y rheiny a leolwyd gyda gofalwyr maeth ALl, gyda mwy o leoliadau mewnol. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd mewn defnydd preswyl ar gyfer lleoliadau newydd o fewn darpariaeth fewnol ac allanol.

Gwelwyd lleihad bychan mewn lleoliadau newydd gyda phersonau cysylltiedig, er y gallai hyn fod oherwydd y cynnydd mewn Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig dros y 12 mis diwethaf.


Ar 84%, mae mwyafrif y plant sy'n cael eu gosod o'r newydd mewn darpariaeth faethu ALl yn aros yn eu ALl cartref, o gymharu â 25% o leoliadau newydd mewn darpariaeth faethu arall.

# Proffl Oedran Plant

### Negeseuon Allweddol:

- Roedd hanner y lleoliadau a wnaed, sef 50.2%, ar gyfer plant 11+ oed.
  - Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y plant yr oed hwn a leolwyd er 20/21 pan yr oedd i ffgwr yn 43.8%, gan ddangos angen parhaus a mwy o angen i leoli plant hŷn.
  - O fewn y cynnydd ar gyfer 2022/23, roedd yna gynnydd o 10.9% ymhlith plant 11+ oed a osodwyd gyda gofalwyr maeth masnachol a chynnydd o 21.3% mewn plant 11+ oed a osodwyd mewn gofal preswyl.
- Ar 29% gwnaethpwyd llai o leoliadau newydd ar gyfer plant 0-4 oed. Mae hyn yn ostyngiad bychan o gymharu â'r llynedd ond yn lleihad sylweddol o 35.9% yn 2020/21.
- Roedd 20.8% o'r lleoliadau newydd a wnaed ar gyfer plant 5-10 oed, cynnydd bach o 19.6% yn 2021/22

Mae'r siart isod yn dangos proffl oedran plant yng Nghymru, yn ôl y math o leoliad y gofynnwyd amdano, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023.




### Proffl Oedran lleoliadau newydd 2022-23

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Cysylltie-dig a26 GCLl | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Pob Trefniant Rhiant a Phlentyn | Preswyl | Pob lleoliad newydd arall | Cyfanswm lleoliadau | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 659 | 9 | 136 | 169 | 8 | 107 | 165 | 32 | 318 | 1,603 | 29% |
| 5-10 | 382 | 4 | 76 | 141 | 31 | 211 | 0 | 68 | 215 | 1,148 | 20.8% |
| 11+ | 637 | 7 | 131 | 167 | 26 | 274 | 6 | 569 | 949 | 2,769 | 50.2% |
| **Cyfanswm** | **1,678** | **20** | **343** | **477** | **65** | **592** | **168** | **661** | **1,482** | **5,520** | 100% |

### Proffl Oedran lleoliadau newydd 2021-22

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Cysylltie-dig a26 GCLl | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Pob Trefniant Rhiant a Phlentyn | Preswyl | Pob lleoliad newydd arall | Cyfanswm lleoliadau | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 501 | 9 | 153 | 175 | 5 | 98 | 116 | 16 | 410 | 1,483 | 30.9% |
| 5-10 | 327 | 2 | 107 | 145 | 18 | 160 | 0 | 46 | 136 | 941 | 19.6% |
| 11+ | 606 | 5 | 119 | 160 | 21 | 247 | 8 | 469 | 744 | 2,379 | 49.5% |
| **Cyfanswm** | **1,434** | **16** | **379** | **480** | **44** | **505** | **124** | **531** | **1,290** | **4,803** | 100% |

**01** Defnyddio Lleoliadau

**Proffl Oedran lleoliadau newydd 2020-21**

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Unigolyn Cysylltie-dig | Gofalwr Cysylltie-dig a26 GCLl | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Pob Trefniant Rhiant a Phlentyn | Preswyl | Pob lleoliad newydd arall | Cyfanswm lleoliadau | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 534 | 7 | 200 | 137 | 7 | 119 | 136 | 24 | 426 | 1,590 | 35.9% |
| 5-10 | 294 | 2 | 122 | 98 | 15 | 167 | 3 | 28 | 169 | 898 | 20.3% |
| 11+ | 476 | 6 | 105 | 82 | 19 | 228 | 0 | 427 | 593 | 1,936 | 43.8% |
| **Cyfanswm** | **1304** | **15** | **427** | **317** | **41** | **514** | **139** | **479** | **1188** | **4,424** | 100% |

### Canfyddiadau

Mae mwyafrif y lleoliadau a wneir ar gyfer plant dros 11 oed, ac mae'r nifer hwn wedi codi'n sylweddol dros y 24 mis diwethaf.

Er y gwelwyd cynnydd o 5.1% yn nifer y plant 11+ a leolwyd gyda gofalwyr maeth awdurdod lleol, gwelwyd cynnydd o 10.9% yn nifer y plant 11+ oed sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth masnachol a chynnydd o 21.3% yn nifer y plant 11+ oed a leolwyd mewn darpariaeth breswyl.


Oherwydd hynny, mae arnom angen ystyried recriwtio gofalwyr maeth mewn ffordd wedi'i thargedu at y rheiny sydd â'r sgiliau i ofalu am blant hŷn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod modd cynnig amrywiaeth eang o leoliadau yn y sector, rhaid bod statws cymeradwyaeth ar draws yr ystod oedran eang o 0-18 oed, i fodloni gofynion ac i ddarparu dewis o ran paru, yn ogystal â darparu cyfleoedd datblygiad pellach ar gyfer ein cohort o ofalwyr i godi eu hyder a'u parodrwydd i ystyried newid yr oed sydd well ganddynt.


## Argaeledd Lleoliadau Maethu ALl

### Negeseuon Allweddol:

- Cododd cyfanswm y lleoliadau maeth ALl prif ffrwd wedi eu cymeradwyo 3% i **2,408**
  - Roedd **79.6%** (n1918) o leoliadau wedi eu cymryd, â bron y cyfan ohonynt gan blant o'r Awdurdod Lleol cartref.
  - Ar **8.6%** (n214) roedd mwy o leoliadau gwag **ar gael** i'w defnyddio o gymharu â'r llynedd. O'r rhain roedd **6** yn lleoliadau Rhiant a Phlentyn gwag
  - **Nid oedd** yr 11.8% o leoliadau heb eu cymryd ar gael i'w defnyddio.
  - Roedd **0.6%** (n14) o leoliadau wedi eu cymryd gan blant o Awdurdodau Lleol eraill
- Gwelwyd lleihad o 5.8% (n12) mewn lleoliadau seibiant, i 194.

**01** Defnyddio Lleoliadau




### Argaeledd Lleoliadau Maethu

| **Ar 31.03.23** | Nifer y lleoliadau wedi eu cymryd gan blant eu ALl eu Hun | Nifer y lleoliadau wedi eu cymryd gan blant ALl arall | Nifer y lleoliadau Heb eu Cymryd sydd Ar gael | Nifer y lleoliadau Heb eu Cymryd sydd ddim ar gael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Ffrwd Byrdymor | 1,060 | 5 | 161 | 199 | 1,425 |
| Prif Ffrwd Hirdymor | 892 | 9 | 47 | 89 | 1,037 |
| Rhiant a Phlentyn | 10 | 0 | 6 | 6 | 22 |
| Cyfanswm | **1962** | **14** | **214** | **294** | **2484** |
| % y Rhaniad | **79%** | **0.6%** | **8.6%** | **11.8%** | |
| Seibiant | 42 | 0 | 93 | 59 | 194 |
| Cyfanswm Lleoliadau | 2004 | 14 | 307 | 353 | 2678 |

### Argaeledd Lleoliadau Maethu

| **Ar 31.03.22** | Nifer y lleoliadau wedi eu cymryd gan blant eu ALl eu Hun | Nifer y lleoliadau wedi eu cymryd gan blant ALl arall | Nifer y lleoliadau Heb eu Cymryd sydd Ar gael | Nifer y lleoliadau Heb eu Cymryd sydd ddim ar gael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Ffrwd Byrdymor | 907 | 10 | 135 | 166 | 1,218 |
| Prif Ffrwd Hirdymor | 909 | 6 | 31 | 155 | 1,101 |
| Rhiant a Phlentyn | 12 | 0 | 2 | 4 | 18 |
| Cyfanswm | **1828** | **16** | **168** | **325** | **2337** |
| % y Rhaniad | **78.2%** | **0.7%** | **7.2%** | **13.9%** | |
| Seibiant | 87 | 1 | 84 | 34 | 206 |
| Cyfanswm Lleoliadau | 1915 | 17 | 252 | 359 | 2543 |

## Canfyddiadau

Gwelwyd cynnydd bychan o 3% yn nifer y lleoliadau gofal maeth ALl gan ddod â'r cyfanswm i 2408.

Roedd nifer y lleoliadau gwag wedi eu cymeradwyo a oedd ar gael wedi codi i 8.6% o 7.2% y llynedd. Yn y cyfamser, roedd nifer y lleoliadau wedi eu cymryd gan blant yr ALl ei hun wedi codi i 79% o 78.2% y llynedd, a chafwyd cynnydd dros y 3 blynedd ddiwethaf.

Mae nifer y lleoliadau rhiant a phlentyn sydd wedi eu cymryd wedi lleihau, ac mae nifer y lleoliadau rhiant a phlentyn sydd ar gael wedi codi. Mae'r data yn gynharach yn yr adroddiad yn dangos bod angen datblygu'r ddarpariaeth hon am fod 47 lleoliad wedi cael eu gwneud gydag asiantaethau maethu annibynnol ac 85 lleoliad wedi cael eu gwneud mewn lleoliadau preswyl.


Mae cyfraddau'r lleoliadau heb eu cymryd ar lefel unigol yn parhau i ddangos amrywiad sylweddol ar draws yr awdurdodau lleol, ac mae'r gyfradd isaf o leoliadau heb eu cymryd sydd ar gael yn 0.7% a'r uchaf yn 17%.


Dylai gwasanaethau ystyried a ellid cryfhau mecanweithiau i wneud y defnydd gorau o leoliadau rhwng awdurdodau i blant. Mae niferoedd lleoliadau rhwng awdurdodau wedi lleihau ychydig ac maent yn dal i fod yn is nag y buasem yn disgwyl eu gweld o ystyried y lleoedd gwag. Argymhellir bod prosesau monitro a systemau cadarn yn cael eu cyflwyno i sicrhau bod darpariaeth faethu'r ALl yn cael ei harchwilio cyn dechrau ar unrhyw broses o chwilio am leoliadau ehangach.


# Diweddu Heb ei Gynllunio – Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Gofal Maeth

### Negeseuon Allweddol:

- Roedd nifer y plant y diweddwyd eu lleoliad mewn ffordd heb ei chynllunio wedi codi ymhellach i 12.4% (n 619). Mae hyn wedi codi bob blwyddyn o 8.6% yn 20/21.
  - Ar draws yr holl blant sydd wedi cael eu maethu mewn darpariaeth awdurdod lleol (prif ffrwd ac unigolion cysylltiedig) roedd y gyfradd yn 12.2% (n361) er y gwelwyd cynnydd mewn lleoliadau prif ffrwd.
  - Mae hyn yn cymharu â 13.4% (n152) mewn lleoliadau masnachol a 11.2% (n17) yn narpariaeth y 3ydd sector.
- Yn ystod 22/23 roedd yna **619** o achosion o ddiweddu heb ei gynllunio (ALl a LlMA) lle'r oedd plant wedi symud rhwng lleoliadau neu ddychwelyd adref, a hynny ddim yn unol â'r cynllun gofal a chymorth, ac mae hyn yn gynnydd o **170** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




### Diweddu Heb ei Gynllunio

| | | Lleolwyd gyda gofalwyr maeth awdurdod lleol | Lleolwyd gyda gofalwyr maeth awdurdod lleol arall | Lleolwyd gyda gofalwyr maeth sy'n unigolion cysylltiedig | Lleolwyd gyda gofalwyr maeth darparwr annibynnol o'r trydydd sector | Lleolwyd gyda gofalwyr maeth darparwr masnachol annibynnol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2022-23** | ffigur | 361 | 5 | 84 | 17 | 152 | 619 |
| | canran | 18% | 33% | 5% | 11.2% | 13.4% | 12.4% |
| **2021-22** | ffigur | 243 | 5 | 68 | 6 | 134 | 449 |
| | canran | 12% | 35% | 4.3% | 4.8% | 11.4% | 9.1% |
| **2020-21** | ffigur | 214 | | 91 | 61 | 244 | 438 |
| | canran | 10% | | 5.6% | 39% | 21% | 8.6% |

### Canfyddiadau

Mae nifer y plant sydd wedi gweld eu lleoliad yn diweddu mewn ffordd heb ei chynllunio wedi codi dros y 12 mis diwethaf a dros y tair blynedd ddiwethaf ar draws pob math o ddarpariaeth faethu.

Roedd y cynnydd mwyaf yn lleoliadau maethu prif ffrwd ALlau lle gwelwyd cynnydd o 6% (n118) i 18% (n361) er, o gyfuno'r data unigolion cysylltiedig, mae hyn yn gostwng i 12.2% (n445).

Gwelwyd y cyfraddau'n codi yn y 3ydd sector o 6.4% (n11) i 11.2% ac mewn asiantaethau maethu masnachol, 1% (n18) i 13.4%.

Mae sefydlogrwydd lleoliadau yn parhau i fod yn ffactor allweddol wrth wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a dylid monitro hyn yn ofalus.

# recriwtio a chadw prif ffrwd


2

## Recriwtio

### Negeseuon Allweddol

- Yn 2022/23, gwelwyd lleihad yn nifer yr ymholiadau ac yng nghymeradwyaeth gofalwyr maeth prif ffrwd. Fodd bynnag, gwelwyd lleihad sylweddol yn y gyfradd yr oedd ymholiadau wedi disgyn, o gymharu â'r 5 mlynedd ddiwethaf. Roedd y gyfradd yr oedd ymweliadau cychwynnol wedi disgyn dros y 5 mlynedd flaenorol hefyd wedi arafu.
  - Gwelwyd lleihad bychan o 2.6% (n39) yng nghyfanswm yr ymholiadau ynghylch maethu, yn 2022/23 i **1,444**
  - Mae yna gynnydd bychan ond calonogol yn yr ymholiadau gan bobl sy'n newydd i faethu a'r rheiny sydd wedi maethu o'r blaen; mae hyn yn gwrthdroi'r tueddiadau blaenorol, gan awgrymu bod maethu gyda'r Awdurdod Lleol yn dod yn fwy deniadol.
- Cymeradwywyd **113** o aelwydydd, sef traean yn llai na'r llynedd, gan adlewyrchu cyfradd drawsnewid o 7.8%, sy'n gyfradd drawsnewid is nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.
- Cwblhawyd **54%** o'r cymeradwyaethau o fewn yr amserlen o chwe mis a argymhellir, o gymharu â 57% yn 21-22 a 54% yn 20-21.
- Roedd **124** lleoliad newydd wedi dod ar gael, sef lleihad o **92** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys **88** lleoliad prif ffrwd, **35** lleoliad seibiant ac **1** lleoliad rhiant a phlentyn. .

**Recriwtio Gofalwyr Maeth Cyffredinol**





| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Ymholiadau | 1444 | 1483 | 1564 |
| Ymweliadau â'r cartref / asesiadau a wnaed | 422 | 489 | 581 |
| Asesiadau maethu a ddyranwyd | 206 | 263 | 355 |
| Cymeradwyaethau a wnaed | 113 | 169 | 203 |
| Cyfradd drawsnewid cymeradwyaethau | 7.8% | 11% | 13% |

### Canfyddiadau

Er bod nifer yr ymholiadau wedi lleihau eleni, roedd y lleihad o 39 ymholiad yn sylweddol is na'r lleihad o 81 yn y flwyddyn flaenorol a dros 100 mewn blynyddoedd blaenorol. Mae nifer yr ymweliadau cychwynnol a'r asesiadau a ddyrannwyd hefyd wedi lleihau, fodd bynnag, gan ddilyn yr un patrwm â'r ymholiadau gyda llai o ostyngiad bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae niferoedd y cymeradwyaethau maethu prif ffrwd ar y cyfan wedi lleihau i raddau helaethach yn 2022/23 o gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol.

Mae'r gwaith o fonitro data am recriwtio'n fisol ac adrodd amdano yn chwarterol yn parhau, trwy'r offeryn casglu data Dangosyddion Perfformiad Allweddol misol. Gobeithir y bydd y gwaith monitro data hwn, yn ogystal â datblygiad hyfforddiant arfer gorau wrth recriwtio, a ddylai sefydlu arfer recriwtio gwell ar draws gwasanaethau, a'r gweithgarwch marchnata trwy Maethu Cymru, yn gymorth i ni gynyddu nifer yr ymholiadau a cheisio ffyrdd o barhau i wella'r cyfraddau trawsnewid o ymholiad i gymeradwyaeth.

### Ymholiadau




| | Aelwydydd nad ydynt wedi maethu o'r blaen | Aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen trwy wasanaeth prif ffrwd ALlau eraill | Aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen trwy fudiadau trydydd sector | Aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen trwy fudiadau masnachol annibynnol |
|---|---|---|---|---|
| **2022-23** | 1425 | 37 | 5 | 57 |
| **2021-22** | 1411 | 32 | 9 | 9 |
| **2020-21** | 1,457 | 15 | 15 | 24 |

### Canfyddiadau


Gwelwyd cynnydd o 35 yn nifer yr ymholiadau gan aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 24 yn nifer yr ymholiadau gan aelwydydd nad ydynt wedi maethu o'r blaen. Cynnydd bychan yw hwn, ond mae'n dechrau gwrthdroi'r duedd o ostyngiad a welwyd yn flaenorol. Mae'n yn awgrymu bod maethu gyda'r ALl yn ddeniadol i lawer o bobl sydd wedi maethu o'r blaen. Er nad yw hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y rheiny a gymeradwywyd eto, mae nifer yr ymholiadau gan bobl nad ydynt wedi maethu o'r blaen yn awgrymu bod mwy o bobl yn chwilio am gyfleoedd i faethu gyda'r awdurdod lleol fel eu cam cyntaf.

# Cadw

### Negeseuon Allweddol:

- Gwelwyd y gallu i gadw gofalwyr maeth yn gwella yn 2022/23, gyda rhai agweddau yn dychwelyd at y lefelau a welwyd cyn y pandemig.
  - Roedd nifer y gofalwyr maeth a adawodd y gwasanaeth ar ei lleiaf mewn 3 blynedd, gyda 10% (n22) yn llai yn gadael o gymharu â'r llynedd.
  - Collwyd 30% (n91) yn llai o leoliadau o gymharu â'r llynedd
  - Ar ddiwedd blwyddyn 2023 adroddwyd bod colled net o 69 o aelwydydd a cholled net o 89 o leoliadau.
- Y prif reswm a nodwyd dros golli aelwydydd a oedd yn maethu o'r gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd Salwch / Profedigaeth / Perthynas yn Chwalu / Symud Tŷ.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr a oedd yn gadael maethu oherwydd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

### Gofalwyr Cymru Gyfan






| | 2022-23 | | 2021-22 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau |
| Nifer a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | 115 | 124 | 169 | 201 | 203 | 303 |
| Nifer a adawodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn | 184 | 213 | 206 | 304 | 185 | 291 |
| Colled/Enillion Net | -69 | -89 | -37 | -103 | +18 | +14 |


### Canfyddiadau

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cymeradwyaethau a derfynwyd gan ddangos bod ALl yn llwyddo i gadw mwy o ofalwyr maeth. Mae nifer y gofalwyr sydd wedi ymddeol oherwydd gwasanaeth hir wedi dychwelyd at y lefel a welwyd cyn y pandemig ac mae llai o ofalwyr wedi symud at ddarparwyr maethu masnachol (er elw) a nid-er-elw, sy'n golygu bod mwy yn dewis aros gyda'u hawdurdodau lleol. Roedd y gofalwyr maeth a adawodd am fod y lleoliad yn newid at drefniant 'Pan Fydda I'n Barod…' , neu bryderon, cwynion neu honiadau, wedi parhau ar lefel debyg. Y newid amlwg arall oedd bod nifer y gofalwyr maeth sydd wedi ymddeol oherwydd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi codi eto, sy'n golygu bod mwy o blant yn aros mewn trefniadau mwy hirdymor, gan gynyddu sefydlogrwydd y trefniadau. Mae hyn yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ond yn tynnu sylw at yr angen i gymeradwyo gofalwyr maeth newydd yn lle'r rhai sy'n ymddeol.

**02** Recriwtio a Chadw Prif Ffrwd




### Y Rheswm y mae Gofalwyr Prif Ffrwd yn gadael y gwasanaeth

| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Hir | 35 | 51 | 36 |
| Iechyd / Profedigaeth / Perthynas yn Chwalu / Symud Tŷ | 40 | 38 | 43 |
| Newid Gyrfa | 38 | 40 | 30 |
| Symud i ALl arall | 1 | 2 | 4 |
| Symud i sefydliad 3ydd sector | 2 | 5 | 1 |
| Symud i sefydliad sector masnachol | 2 | 8 | 8 |
| Trefniant PFB / Llety â Chymorth | 11 | 12 | 24 |
| Gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig | 13 | 2 | 7 |
| Gwneud Gorchymyn Mabwysiadu | 4 | 4 | 2 |
| Pryderon / cwynion / honiadaus | 16 | 17 | 11 |
| Plentyn yn dychwelyd adref | 4 | 2 | 3 |
| Maethu ddim wedi bodloni'r disgwyliadau | 18 | 25 | 16 |
| **Cyfanswm** | **184** | **206** | **185** |

## Canfyddiadau

Mae colled net barhaus gofalwyr maeth dros y 3 blynedd ddiwethaf, er y collwyd llai o leoliadau yn 2022/23, yn tynnu sylw at yr angen am fwy o ffocws ar recriwtio a chadw er mwyn sicrhau bod Maethu Cymru yn gallu sicrhau twf yn narpariaeth maethu ALlau. Bydd yr Ymrwymiad Cenedlaethol a'r Strategaeth Farchnata yn allweddol wrth wireddu hyn.

# personau cysylltiedig – recriwtio a chadw


3

## Recriwtio

**Negeseuon Allweddol:**


- Mae'r galw am asesiadau unigolion cysylltiedig gan awdurdodau lleol yn dal i fod yn uchel gydag 856 o asesiadau hyfywedd yn cael eu gwneud, a 66% (n568) yn cael eu gwneud gan staff gwasanaethau maethu a'r gweddill gan dîmau eraill.
  - Dyrannwyd mwy na thair gwaith yr asesiadau unigolyn cysylltiedig o gymharu ag asesiadau prif ffrwd h.y. 651 o gymharu â 206. Mae hyn yn cynnal patrwm a welwyd ers sawl blwyddyn.
- Gwelwyd cynnydd o 13.8% (n65) yn y nifer a arweiniodd at asesiad llawn yn ganlyniad, er gwaethaf gostyngiad o 19% (n203) yn nifer yr asesiadau hyfywedd a wnaed.
- Roedd 308 o bersonau cysylltiedig newydd wedi cael eu cymeradwyo, sef cynnydd o 7.6% (n22).
- Nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a wnaed yn dilyn yr asesiadau hyfywedd hyn oedd **167**, sef lleihad o **36.5%**.
- Roedd 1,673 o blant yn byw gyda Gofalwyr Maeth a oedd yn Unigolion Cysylltiedig ddiwedd 22/23, sef cynnydd o 4% (n66) o gymharu â 21/22.

**Asesiadau Hyfywedd/Cychwynnol**




| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Asesiadau hyfywedd/cychwynnol a atgyfeiriwyd at wasanaeth maethu | 856 | 1059 | 971 |
| Asesiadau hyfywedd/cychwynnol a gwblhawyd gan wasanaeth maethu | 568 | 811 | 863 |
| Asesiadau hyfywedd/cychwynnol cadarnhaol gan wasanaeth maethu | 534 | 469 | 474 |
| Asesiadau hyfywedd/cychwynnol a gwblhawyd gan dîmau gofal plant yn unig | 208 | 276 | 255 |

### Asesiadau Unigolyn Cysylltiedig Llawn




| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Asesiadau llawn a ddyranwyd | 651 | 621 | 765 |
| Cymeradwywyd fel Unigolyn Cysylltiedig | 308 | 286 | 389 |
| Rhoddwyd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig | 167 | 263 | 197 |

## Canfyddiadau

Mae'r galw am wasanaethau mewn perthynas ag asesiadau unigolion cysylltiedig yn dal i fod yn uchel ar draws awdurdodau lleol, ond roedd lefel y ceisiadau am asesiadau hyfywedd wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Er i nifer yr asesiadau hyfywedd cychwynnol ostwng eleni (-19.1%), roedd nifer yr asesiadau hyfywedd cadarnhaol a gwblhawyd gan y gwasanaeth maethu wedi cynyddu'n sylweddol (+13.9%) a'r asesiadau a ddyrannwyd hefyd wedi cynyddu (4.9%).

Wrth gymharu'r ffgurau hyn yn uniongyrchol â gofynion am asesiadau prif ffrwd, dyrennir mwy na thair gwaith gymaint o asesiadau unigolyn cysylltiedig bob blwyddyn. Yn 22/23 dyrannodd y gwasanaethau maethu 206 asesiad prif ffrwd o gymharu â 651 asesiad unigolyn cysylltiedig.


Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i wasanaethau maethu a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer asesiadau a chymorth prif ffrwd. Mae nifer y gofalwyr maeth a gymeradwywyd fel unigolion cysylltiedig hefyd wedi codi dros y 12 mis diwethaf er bod nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a wnaed yn ganlyniad wedi lleihau.

# Cadw

### Negeseuon Allweddol:


- Mae nifer y gofalwyr maeth yng Nghymru sy'n unigolion cysylltiedig wedi cynyddu ymhellach gyda chynnydd net o **67** o aelwydydd dros y cyfnod, gan gynnwys cymeradwyo 308 o aelwydydd a 439 o leoliadau.
- Roedd 23% yn llai o aelwydydd maethu sy'n **unigolion cysylltiedig** (n71) wedi colli eu cymeradwyaeth o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Y prif reswm a nodwyd ymhlith aelwydydd maethu dros adael y gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd gwneud **Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig**
- **Yr ail reswm mwyaf cyffredin yr oedd aelwydydd maethu** wedi colli eu cymeradwyaeth oedd nad oedd angen iddynt ofalu am y plentyn. Mae hyn yn dangos asesiadau a wnaed lle nad oedd angen gofalwyr.
- Mae llai o aelwydydd sy'n maethu yn colli eu cymeradwyaeth oherwydd cwynion, pryderon a honiadau.


### Gofalwyr Unigolyn – Cysylltiedig Cymru Gyfan





| | 2022-23 | | 2021-22 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau |
| Nifer a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | 308 | 439 | 286 | 406 | 389 | 534 |
| Nifer a adawodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn | 241 | 303 | 312 | 420 | 291 | 386 |
| Colled/Enillion Net | +67 | +136 | -26 | -14 | +88 | +148 |

**03** Personau Cysylltiedig Recriwtio a Chadw




**Rheswm y mae Gofalwyr Maeth sy'n Unigolion Cysylltiedig yn colli eu cymeradwyaeth fel gofalwyr maeth**

| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Hir | 2 | 1 | 4 |
| Iechyd / Profedigaeth / Perthynas yn Chwalu / Symud Tŷ | 22 | 19 | 19 |
| Newid Gyrfa | 10 | 0 | 1 |
| Symud i ALl arall | 2 | 0 | 0 |
| Trefniant PFB / Llety â Chymorth | 22 | 35 | 26 |
| Gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig | 85 | 149 | 99 |
| Gwneud Gorchymyn Mabwysiadu | 3 | 0 | 2 |
| Pryderon / cwynion / honiadau | 7 | 12 | 11 |
| Plentyn yn dychwelyd adref | 43 | 48 | 71 |
| Cymeradwywyd gofalwr ond nid oedd ei angen | 43 | 42 | 58 |
| Maethu ddim wedi bodloni'r disgwyliadau | 2 | 6 | 12 |
| **Cyfanswm** | **241** | **312** | **312** |

## Canfyddiadau

Gwelwyd cynnydd yn nifer gyfan y personau cysylltiedig a gymeradwywyd ar y cyfan, fodd bynnag yn 2021-22 roedd yna gynnydd yn nifer y plant o osodwyd o dan drefniant rheoliad 26 ac felly efallai bod rhai o'r rhain wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol ac felly maent yn cyfrannu at y cynnydd.

Cafwyd cynnydd net o 67 o aelwydydd a 136 o leoliadau ers y llynedd.

Cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr unigolion cysylltiedig a gollodd eu cymeradwyaeth. Y prif reswm dros hyn o hyd yw gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, er hynny roedd gostyngiad yn nifer y rhain a wnaed.

# costau cysylltiedig

4

**Negeseuon Allweddol:**

- Gofal maeth awdurdod lleol yw'r mwyaf cost-effeithiol o blith y lleoliadau maethu yn y sector yng Nghymru o hyd.
  - Cost wythnosol gyfartalog lleoliad ALl prif ffrwd yw **£532** (gan gynnwys y lleoliad a chostau cymorth y gwasanaeth cyfan).
  - Y gost wythnosol gyfartalog ar gyfer lleoliad unigolyn cysylltiedig gyda'r ALl yw **£372** (gan gynnwys y lleoliad a chostau cymorth y gwasanaeth cyfan).
  - Cost wythnosol gyfartalog lleoliad annibynnol gyda'r 3ydd sector yw **£1,078** (gan gynnwys yr holl gostau a godir ar yr ALl)
  - Cost wythnosol gyfartalog lleoliad masnachol annibynnol yw **£901** (gan gynnwys yr holl gostau a godir ar yr ALl).
- Ar gyfartaledd mae'r gost o leoli plentyn mewn lleoliad Asiantaeth Faethu Annibynnol masnachol neu 3ydd sector yn **£16,588** o leiaf, y plentyn, y flwyddyn.
- Petai pob lleoliad Asiantaeth Faethu Annibynnol masnachol yn dod nôl o fewn darpariaeth yr awdurdod lleol, byddai'r awdurdod lleol yn arbed **£18,810,792**
- Mae'r costau wythnosol cyfartalog ar gyfer trefniadau Rhiant a Phlentyn yn dilyn patrwm tebyg
  - **£844** ar gyfer darpariaeth ALl,
  - **£944** ar gyfer y 3ydd sector,
  - **£1,492** ar gyfer masnachol
  - **£3,861** ar gyfer lleoliadau preswyl
- Mae'r gost ychwanegol o osod trefniant Rhiant a Phlentyn o fewn Asiantaeth Faethu Annibynnol fasnachol **£7,776** yn fwy ar gyfer lleoliad 12-wythnos ac o fewn lleoliad preswyl mae'n **£36,204** am leoliad o'r un hyd.

## Costau Maethu Cymru

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau plant sy'n derbyn gofal wedi codi'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar; mae'r gyfran fwyaf yn dueddol o gael ei gwario ar ofal maeth. Yn 2021/22 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) gwariwyd £136.52m ar wasanaethau maethu a gomisiynwyd ac a ddarparwyd yn uniongyrchol.

Daw mwyafrif y cyllid sy'n gysylltiedig â gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol sy'n ffurfio Maethu Cymru o gyllidebau'r awdurdodau lleol eu hunain, ond mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth grant i gefnogi rhywfaint o'r seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol a dulliau gweithredu newydd ac ychwanegol mewn awdurdodau lleol. Yn 2022/23 roedd hyn tua 0.9% o gyfanswm y gwariant ar ofal maeth yng Nghymru; mae llawer o'r cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ar gael i awdurdodau lleol trwy Maethu Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn clustnodi mwy o gyllid yn 2023/24 a 2024/25.

Yn y tabl isod amlinellir y cyllid sydd ar gael i Maethu Cymru ar gyfer 2022/23.

| Ffrwd Incwm a Ffynhonnell | Dyraniad y gwariant | | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Dyraniad gan y Grant Cynnal Refeniw £433,600 (i'w gadarnhau'n flynyddol) | Costau staff, swyddfa a chydlynu cenedlaethol. | £193,600 | **£433,600** |
| | Cyllid tuag at 6 x Rheolwr Datblygu Rhanbarthol wedi'u cyflogi gan Awdurdodau Lleol arweiniol. | £240,000 | |
| Grant 'Brand Cymru Gyfan' Llywodraeth Cymru £558,700 (sicrhawyd tan 31.03.25) | Rheolwr Marchnata Cenedlaethol a chostau seilwaith cenedlaethol eraill | £131,400 | **£558,700** |
| | Cyllid tuag at 6 x Swyddog Marchnata Rhanbarthol wedi'u cyflogi gan Awdurdodau Lleol arweiniol. | £132,000 | |
| | Cynnal a chadw'r Wefan Genedlaethol a'i datblygu | £15,000 | |
| | Marchnata cenedlaethol a lleol a Chysylltiadau Cyhoeddus | 295,000.00 | |
| Grant 'Cefnogi Maethu Cymru' Llywodraeth Cymru £181,500 (sicrhawyd tan 31.03.27, gyda chynnydd sylweddol ar gyfer 23/24 a 24/25[2]) | Seilwaith – costau staff a lletya | £181,500 | **£181,500** |
| Ffioedd a Lwfansau cyllid prosiect £12,800 | Ffioedd a Lwfansau blwyddyn 1 | £12,800 | **£12,800** |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | | **£1,186,600** |

[2] *'Ar gyfer 2023/24 a 2024/25 mae yna nawdd ychwanegol sylweddol o tua £1.8m. Swyddogion recriwtio a chadw, recriwtio arall, capasiti ar gyfer asesu a chymorth a phrosiectau eraill.*

Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
029 2087 3797